Llywodraeth EM

MASNACHWYR YN Y DU

# Sut i fewnforio nwyddau o'r UE i'r DU drwy leoliadau gyrru-ymlaen-ac-i-ffwrdd (RoRo) ar ôl Brexit

Wedi'i ddynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020

Heb gynnwys Gogledd Iwerddon

**Gwirio'r newidiadau ar gyfer masnachwyr yn gov.uk/brexit**

Fersiwn 1

Penderfynwch sut y byddwch yn mewnforio eich nwyddau o’r UE i’r DU. Y ddau brif opsiwn yw:

- Mewnforio nwyddau drwy **weithdrefnau mewnforio safonol**.
- Mewnforio nwyddau drwy **weithdrefnau mewnforio symlach**, a elwir yn Weithdrefnau Symlach Dros Dro (TSP). Ar gyfer y rhan fwyaf o nwyddau, mae hyn yn caniatáu i chi oedi cyn cyflwyno datganiad tollau llawn a thalu toll dramor am hyd at chwe mis.

Gallwch hefyd ystyried **symud eich nwyddau gan ddefnyddio gweithdrefnau Cludo** os ydych o’r farn bod hwn yn opsiwn gwell i chi.

## Mewnforio safonol

**Ewch i dudalen 4**

## Mewnforio symlach (a elwir hefyd yn Weithdrefnau Symlach Dros Dro)

### Byddwch yn barod

Ewch ati i gael **rhif EORI a roddir yn y DU** os nad oes un gennych yn barod (mae’n dechrau gyda GB). Mae’n cymryd pump i ddeng munud i wneud cais yn GOV.UK

Gwiriwch a oes angen **trwydded mewnforio** ar eich nwyddau, er enghraifft os ydych yn gwerthu bwyd neu dda byw. Os felly, gwnewch y trefniadau angenrheidiol. Os ydych yn masnachu nwyddau o dan reolaeth fel cemegion, bwyd, nwyddau ecséis neu anifeiliaid, bydd angen i chi ddilyn dogfennau/tystysgrifau a phrosesau ychwanegol. Gwiriwch GOV.UK am wybodaeth fwy manwl.

Rydych wedi penderfynu defnyddio **gweithdrefnau mewnforio symlach**. Bydd angen i chi wneud cais yn GOV.UK.

A fyddwch yn defnyddio **asiant tollau i gwblhau gweithdrefnau tollau** ar eich rhan?

**Byddaf, rwyf am ddefnyddio asiant tollau.**

Dewch o hyd i **asiant tollau**.

**Yn eich blaen i dudalen 3**

**Na fyddaf, nid wyf am ddefnyddio asiant tollau.**

A ydych yn bwriadu mewnforio nwyddau **safonol** neu nwyddau **o dan reolaeth**?

Ar gyfer **nwyddau safonol**.

**Yn eich blaen i dudalen 3**

Ar gyfer **nwyddau o dan reolaeth**.

Bydd angen i chi wneud datganiadau ar unwaith. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i chi brynu **meddalwedd arbenigol i lenwi’r rhain eich hun, hyfforddi’ch staff a gwneud cais am fathodyn CHIEF** – ni fydd modd i chi lenwi’ch datganiad syml wrth y ffin heb un.

**Yn eich blaen i dudalen 3**

Parhad o dudalen 2

## Mewnforio symlach (a elwir hefyd yn Weithdrefnau Symlach Dros Dro)

Gwiriwch y **tariff heb gytundeb dros dro** ar gyfer eich nwyddau. Os oes rhaid talu toll dramor neu doll ecséis ar eich nwyddau, dylech wneud cais am **gyfrif gohirio tollau** i dalu tollau sy'n ddyledus ar nwyddau drwy ddebyd uniongyrchol misol. Mae'n rhaid i chi fod wedi creu'r cyfrif hwn cyn i chi fewnforio'ch nwyddau.

Rhowch yr holl wybodaeth angenrheidiol i'ch asiant tollau fel y gall lenwi datganiad ar eich rhan, gan gynnwys:

- eich rhif EORI yn y DU (mae'n dechrau gyda GB)
- eich rhif cofrestru TSP.

Bydd yr asiant tollau'n llenwi datganiad ac yn gweithio gyda'r cludwr i ddod â'r nwyddau i'r DU.

### Paratowch i symud eich nwyddau

Ar gyfer **nwyddau safonol**.

**Gwnewch gofnod o'ch mewnforyn yn eich cofnodion eich hun.**

Rhowch eich rhif EORI yn y DU (mae'n dechrau gyda GB) i'ch cludwr.

Unwaith y bydd y cludwr yn rhoi gwybod i chi fod eich nwyddau wedi cyrraedd y DU, mae'n rhaid i chi ddiweddaru'ch cofnodion.

Cyflwynwch eich datganiad atodol erbyn y pedwerydd diwrnod gwaith o'r mis canlynol. Gallwch oedi cyn cyflwyno'ch datganiad atodol am hyd at y chwe mis cyntaf ar ôl i'r DU adael yr UE.

Yn eich blaen i dudalen 4

Ar gyfer **nwyddau o dan reolaeth**.

Llenwch **ddatganiad syml wrth y ffin**.

**Rhowch wybodaeth i'ch cludwr, gan gynnwys**:

- **Cyfeirnod Symud yn y DU**/Rhif Mewnforio
- eich rhif EORI yn y DU (mae'n dechrau gyda GB)
- yr ARC neu eAD ecséis (os oes un ar gael).

Unwaith y bydd y cludwr yn rhoi gwybod i chi fod eich nwyddau wedi cyrraedd y DU, mae'n rhaid i chi ddiweddaru'ch datganiad syml wrth y ffin i ddangos eu hamser cyrraedd, a hynny erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf ar ôl iddynt gyrraedd.

Mae'n rhaid i chi gyflwyno'ch datganiad atodol erbyn y pedwerydd diwrnod gwaith o'r mis canlynol.

Yn eich blaen i dudalen 4

Parhad o dudalen 3

Gallwch oedi cyn talu toll dramor am o leiaf y chwe mis cyntaf ar ôl i'r DU adael yr UE.

**Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW**, mae'n rhaid i chi ddefnyddio **dull cyfrifyddu gohiriedig o ran TAW** er mwyn rhoi cyfrif am eich TAW mewnforio.

**Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW**, byddwch yn talu'ch TAW mewnforio drwy ddulliau gwahanol.

Caiff eich cyfrif gohirio tollau ei ddebydu ar ôl i chi gyflwyno'ch datganiad atodol.

**Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW**, mae'n rhaid i chi ddefnyddio **dull cyfrifyddu gohiriedig o ran TAW** er mwyn rhoi cyfrif am eich TAW mewnforio.

**Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW**, byddwch yn talu'ch TAW mewnforio gyda'ch tollau tramor neu dollau ecséis.

## Mewnforio safonol

### Byddwch yn barod

Ewch ati i gael **rhif EORI a roddir yn y DU** os nad oes un gennych yn barod (mae'n dechrau gyda GB). Mae'n cymryd pump i ddeng munud i wneud cais yn GOV.UK.

Gwiriwch a oes angen **trwydded mewnforio**, ar eich nwyddau, er enghraifft os ydych yn gwerthu bwyd neu dda byw. Os felly, gwnewch y trefniadau angenrheidiol. Os ydych yn masnachu nwyddau o dan reolaeth fel cemegion, bwyd, nwyddau ecséis neu anifeiliaid, bydd angen i chi ddilyn dogfennau/tystysgrifau a phrosesau ychwanegol. Gwiriwch GOV.UK am wybodaeth fwy manwl.

Rydych wedi penderfynu **peidio** â defnyddio gweithdrefnau mewnforio symlach.

A fyddwch yn defnyddio **asiant tollau i lenwi'r datganiad tollau llawn** ar eich rhan?

Byddaf, rwyf am ddefnyddio asiant tollau.

Dewch o hyd i **asiant tollau**.

Na fyddaf, nid wyf am ddefnyddio asiant tollau.

Prynwch **feddalwedd arbenigol i lenwi datganiadau'ch hun, hyfforddi'ch staff a gwneud cais am fathodyn CHIEF**.

### Paratowch i symud eich nwyddau

Rhowch yr holl wybodaeth angenrheidiol i'ch asiant tollau fel y gall lenwi datganiad tollau llawn, gan gynnwys:

- eich **cod nwyddau**
- eich **cod gweithdrefnau tollau**.

Yn eich blaen i dudalen 5

Gwnewch yn siŵr bod gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i lenwi datganiad tollau llawn eich hun, gan gynnwys:

- eich **cod nwyddau**
- eich **cod gweithdrefnau tollau**.

Yn eich blaen i dudalen 5

Parhad o dudalen 4

Bydd yr asiant tollau'n llenwi'r **datganiad tollau llawn** ac yn gweithio gyda'r cludwr i ddod â'r nwyddau i'r DU.

**Rhowch wybodaeth i'ch cludwr, gan gynnwys**:

- **Cyfeirnod Symud yn y DU**/Rhif Mewnforio
- eich rhif EORI yn y DU (mae'n dechrau gyda GB)
- yr ARC neu eAD ecséis (os oes un ar gael).

Mae'r cludwr yn casglu'r nwyddau gan ddilyn cyfarwyddiadau'r cwmni yn yr UE rydych yn prynu'r nwyddau oddi wrtho, ac yn dod â nhw i'r DU.

## Mewnforio safonol

Diweddarwch y datganiad tollau llawn er mwyn dangos bod y nwyddau wedi cyrraedd y DU. Dylid gwneud hyn erbyn diwedd y diwrnod gwaith ar ôl i'r nwyddau gyrraedd y DU.

Bydd yn rhaid i chi dalu'r canlynol:

- Toll dramor – rhaid talu hyn unwaith bod y nwyddau'n cyrraedd y DU. Gallwch dalu CThEM yn uniongyrchol neu gofrestru ar gyfer cyfrif gohirio tollau sy'n golygu y gallwch ohirio talu
- TAW mewnforio – gellir rhoi cyfrif am hyn ar eich Ffurflen TAW os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW
- Toll ecséis – rhaid ei thalu oni bai bod y nwyddau'n cael eu rhoi o dan waharddiad toll ecséis dros dro.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch **talu tollau** ar gael yn GOV.UK.

**Paratoi ar gyfer Brexit yn gov.uk/brexit**

Wedi'i dynnu'n